GWAITH BODDHAOL AR GYFER MENYWOD

TROSOLWG I'R ATHRO

Cynnwys

- Cyflwyniad
- Nodau Gwaith Boddhaol ar gyfer Menywod
- Cysylltiadau â'r cwricwlwm (trosolwg yn unig)
- Strwythur Gwaith Boddhaol ar gyfer Menywod
- Trosolwg o'r sesiynau
- Gwahaniaethu
- Nodiadau addysgu pwysig
- Gwybodaeth gefndir
- Dolenni Gwe defnyddiol
- Cydnabyddiaethau

Cyflwyniad

Nid yw'r economi fyd-eang yn gweithio ar gyfer menywod. Yng Nghymru, mae yna fwy o fenywod mewn gwaith heddiw nag erioed o'r blaen. Er hynny, mae yna'n dal i fod fwlch cyflog rhwng y rhywiau o 20%, o ystyried gwaith rhan-amser a gwaith llawn-amser. Mae tua 80% o'r swyddi rhan-amser yn eiddo i fenywod ac, o ganlyniad i hyn, mae gan fenywod fwy o gontractau dim oriau, dros dro ac anffurfiol. Mae hyn yn golygu bod y swyddi'n aml yn rhai ansicr, sy'n talu cyflogau isel, ac nad ydynt yn cynnig llawer o gyfle i wneud cynnydd. [1] At hynny, canfu arolwg, a gynhaliwyd ledled y Deyrnas Unedig gan Girlguiding, fod 37% o'r merched a menywod ifanc rhwng 11 a 21 oed wedi dweud y byddent yn fwy hyderus pe na fyddai yna unrhyw stereoteipiau o ran rhywedd. Canfu hefyd fod 55% o'r merched a menywod ifanc wedi dweud bod stereoteipiau o ran rhywedd yn effeithio ar eu gallu i ddweud yr hyn a oedd ar eu meddwl. [2] Yn waeth na hynny, mae menywod yn cyfrannu tua $10 triliwn at yr economi fyd-eang mewn gwaith gofal di-dâl. Mae gan gyfanswm o 104 o wledydd gyfreithiau sy'n atal menywod rhag gweithio mewn swyddi penodol, er enghraifft gweithgynhyrchu ac adeiladu. Mae nifer y biliwnyddion ledled y byd yn 2,043, ac mae naw o bob deg ohonynt yn ddynion. Bydd yn cymryd 217 o flynyddoedd i gau'r bwlch rhwng dynion a menywod o ran cyflogau a chyfleoedd cyflogaeth os bydd y newid yn parhau ar y gyfradd bresennol. [3]

[1] Claire Evans (Mehefin 2017) In-work poverty and decent work for women in Wales, Caerdydd: Oxfam Cymru, repository.cardiffmet.ac.uk/handle/10369/9676
[2] Girlguiding (2017) Girls' Attitudes Survey 2017, www.girlguiding.org.uk/globalassets/docs-and-resources/research-and-campaigns/girls-attitudes-survey-2017.pdf
[3] Detholiad o araith Winnie Byanyima (2018) Why Economic Inequality is a Feminist Issue, www.oxfam.ca/blogs/why-economic-inequality-is-a-feminist-issue

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

Nodau *Gwaith Boddhaol ar gyfer Menywod*

Bydd yr adnodd hwn yn ystyried effeithiau anghydraddoldeb rhwng y rhywiau ar fynediad menywod at waith boddhaol yng Nghymru ac yn y byd ehangach. Bydd y dysgwyr yn ystyried y modd y mae mynediad menywod at waith yn anghyfartal, yn seiliedig ar stereoteipiau ac wedi'i lesteirio gan rwystrau, er enghraifft diffyg polisi llywodraeth i gefnogi anghenion amrywiol menywod. Heb y polisïau hyn i gefnogi menywod yn y gweithle, ni fydd yna gydraddoldeb rhwng y rhywiau i'w gael mewn gwaith boddhaol. Fel y dywedodd Winnie Byanyima, Cyfarwyddwr Gweithredol Oxfam International, 'mae anghydraddoldeb economaidd yn fater cwbl ffeministaidd'.[4]

Cysylltiadau â'r cwricwlwm (trosolwg yn unig)

Mae'r adnodd hwn yn cefnogi'r gwaith o gyflawni Her Dinasyddiaeth Fyd-eang Bagloriaeth Cymru/CA4 Cenedlaethol. Nodwch na fydd y dysgwyr yn gallu cyflawni'r Her Dinasyddiaeth Fyd-eang, Gwaith Boddhaol ar gyfer Menywod, ar gyfer eu hasesiad os defnyddir y gwersi hyn i addysgu'r Her Dinasyddiaeth Fyd-eang yn yr ystafell ddosbarth.

Strwythur *Gwaith Boddhaol ar gyfer Menywod*

Bwriad y sesiynau yw cefnogi'r gwaith o gyflawni'r Her Dinasyddiaeth Fyd-eang. Rhennir y sesiynau'n dair elfen:

1. Meithrin dealltwriaeth o'r materion byd-eang trwy ystyried gwybodaeth, daliadau a barnau o amrywiaeth o ffynonellau, gan gynnwys cymheiriaid ac eraill, a thrwy ymgymryd ag ymchwil bersonol.
2. Meithrin safbwynt personol trwy ystyried ffeithiau, a barnau a safbwyntiau gwahanol.
3. Datblygu dull creadigol ac arloesol o feithrin ymwybyddiaeth o fater byd-eang ar gyfer cynulleidfa darged, a rhoi'r dull hwnnw ar waith.

Mae ffordd Oxfam o ymdrin â dinasyddiaeth fyd-eang (meddwl – dysgu – gweithredu) yn rhan annatod o'r gwersi hyn. Anogir y dysgwyr i feddwl yn feirniadol, datrys problemau, datgan barn annibynnol, a bod yn greadigol ac yn arloesol wrth helpu i sicrhau bod newid yn digwydd.

Trosolwg o'r sesiynau

Sesiwn 1: Menywod a gwaith boddhaol: beth yw gwaith boddhaol?

Mae gwaith boddhaol yn golygu pethau gwahanol i bobl wahanol. Yn Sesiwn 1, bydd y dysgwyr yn archwilio'r hyn y mae gwaith boddhaol yn ei olygu i ddynion ac i fenywod, ac yn archwilio blaenoriaethau, cyfyngiadau a gofynion gwahanol dynion a menywod.

Sesiwn 2: Mynediad anghyfartal menywod at waith boddhaol: achosion, effeithiau ac atebion

[4] Detholiad o araith Winnie Byanyima (2018) Why Economic Inequality is a Feminist Issue, www.oxfam.ca/blogs/why-economic-inequality-is-a-feminist-issue

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

Oherwydd eu cyfrifoldebau o ran gofal a mynediad anghyfartal at waith, mae'r rhan y mae menywod yn ei chwarae yn y byd gwaith yn wahanol i'r rhan y mae dynion yn ei chwarae, a hynny er gwaetha'r ffaith bod menywod yn perfformio'n well na dynion o ran addysg a hyfforddiant. Yn Sesiwn 2, bydd y dysgwyr yn myfyrio ar berthnasedd rhywedd i waith, ac yn datgelu gwir achosion y problemau trwy ddefnyddio ffeithiau ac ystadegau o amrywiaeth o ffynonellau, gan greu cadwyn pam-pam-pam. Defnyddir Cymru fel astudiaeth achos, a bydd y dysgwyr yn defnyddio'r ffeithlun 'Gwaith boddhaol ar gyfer menywod yng Nghymru' i archwilio achosion yr anghydraddoldebau y mae menywod yn eu hwynebu mewn gwaith yng Nghymru, effeithiau'r anghydraddoldebau hyn ar fenywod, a'r atebion posibl i'r broblem hon. Pam y mae yna fwy o fenywod nag o ddynion mewn swyddi rhan-amser, ar gontractau dim oriau neu mewn cylch cyflog isel neu ddim cyflog? Beth yw'r effaith ar fenywod, a sut y gellir eu cefnogi i symud allan o'r sefyllfa hon ac i mewn i waith boddhaol? Bydd y dysgwyr yn dylunio coeden problemau i arddangos yr hyn a ddysgwyd ganddynt.

Sesiwn 3: Menywod a gwaith boddhaol: sicrhau newid

Yn Sesiwn 3, gofynnir i'r dysgwyr gynnal dadansoddiad manwl o astudiaeth achos o blith ystod o chwech sy'n rhychwantu Cymru a'r byd ehangach. Gallant gymharu a gwrthgyferbynnu eu canfyddiadau. Sicrhau bod newid yn digwydd yw ail ffocws y sesiwn hon. Gwelir bod menywod yn dewis proffesiynau sy'n talu cyflogau is, a hynny'n bennaf oherwydd eu cyfrifoldebau gofal. Fodd bynnag, mae'r safbwynt cul hwn yn anwybyddu rhwystrau eraill y mae menywod yn eu hwynebu yn y farchnad lafur, er enghraifft oriau gwaith anhyblyg, gwahaniaethu neu ddiffyg cyfleoedd i symud ymlaen. Mae cyfraniad menywod at economi'r Deyrnas Unedig yn tyfu, ond mae'r bwlch rhwng y rhywiau yn parhau. Nifer cymharol fach o fenywod sydd mewn rolau arwain mewn cyrff llywodraethol a chyrff cyhoeddus. Gofynnir i'r dysgwyr feddwl mewn modd creadigol ac arloesol am y ffordd y gallant feithrin ymwybyddiaeth o'r materion hyn, a hynny trwy feddwl am ymgyrchoedd sydd wedi llwyddo gyntaf. Yna, byddant yn nodi tri chwestiwn y gallant eu gofyn i'w hysgol, eu cymuned a'r llywodraeth, ac yn ystyried sut i'w targedu yn eu hymgyrch er mwyn apelio at y pen (tystiolaeth a dadl resymegol), y galon (gwerthoedd ac emosiynau) a'r dwylo (gweithredoedd). Byddant yn archwilio amrywiaeth o ddulliau ar gyfer meithrin ymwybyddiaeth, ac yn penderfynu ar ddull a fydd, yn eu barn nhw, yn llwyddo i addysgu, trosglwyddo gwybodaeth a meithrin ymwybyddiaeth o'r mater o waith boddhaol a menywod yng Nghymru a'r byd ehangach.

Nodiadau addysgu pwysig

Rhywedd

Mae'r cysyniad o rywedd yn cyfeirio at y normau a'r disgwyliadau a luniwyd gan gymdeithas ac y mae merched a bechgyn, menywod a dynion yn dod ar eu traws, yn ogystal â'r rolau a'r agweddau a ddynodir iddynt. Mae'r normau hyn yn cael eu dysgu dros amser gan deuluoedd a ffrindiau, ysgolion a chymunedau, y cyfryngau, y llywodraeth a sefydliadau eraill. Mae cydraddoldeb rhwng y rhywiau yn cyfeirio at hawliau a chyfrifoldebau cyfartal menywod a dynion, yn ogystal â'r cyfleoedd cyfartal sydd ar gael iddynt. Mae gwir gydraddoldeb rhwng y rhywiau yn golygu ystyried diddordebau, anghenion a blaenoriaethau dynion a menywod, fel ei gilydd. Dylai anghydraddoldeb rhwng y rhywiau ennyn diddordeb dynion, yn ogystal â menywod.

Mae menywod a dynion yn wahanol yn fiolegol ac yn gymdeithasol. Mae'r modd y maent yn ymgysylltu â'r byd gwaith hefyd yn wahanol. Mae Gwaith Boddhaol ar gyfer Menywod yn archwilio'r rhesymau sylfaenol ar gyfer yr anghydraddoldeb canlyniadol y mae menywod yn ei brofi mewn gwaith, yn ogystal â rhai o'r

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

atebion posibl i'r problemau. Mae hefyd yn archwilio'r hyn sy'n wahanol a'r hyn sy'n debyg rhwng sefyllfa menywod, a hynny yng Nghymru a ledled y byd.

Er bod yr adnodd hwn yn canolbwyntio ar gategorïau rhywedd deuaidd menywod a dynion, efallai yr hoffech archwilio'r adnoddau o safbwynt LGBT+ gan nad yw rhai pobl yn uniaethu yn y modd hwn. At hynny, efallai yr hoffech addasu'r adnoddau er mwyn ystyried cartrefi neu berthnasoedd eraill sy'n cynnwys rhieni a gofalwyr LGBT+.

Gallai cynnwys yr adnodd hwn hefyd gael ei ystyried o fframiau cyfeirio gwahanol. Efallai yr hoffech gynnwys cwestiynau neu gymeriadau ychwanegol i gynrychioli amrywiaethau a phrofiadau eraill, neu efallai annog cyfraniadau gan fyfyrwyr y gallai eu profiadau fod yn wahanol i brofiadau'r cymeriadau neu'r astudiaethau achos a gynrychiolir yn yr adnodd hwn. Er enghraifft, gellid archwilio profiad ffoaduriaid, a allai gynnwys rhwystrau ychwanegol o ran iaith, diwylliant neu grefydd, wrth gyflwyno'r adnodd hwn.

Gwybodaeth gefndir

Nod 5 Datblygu Cynaliadwy – Cydraddoldeb Rhwng y Rhywiau[5]

Mae Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig yn set o nodau y cytunwyd arnynt gan arweinwyr y byd ym mis Medi 2015. Mae gan bob nod dargedau ar wahân sydd i'w cyflawni erbyn 2030. Nod 5 Datblygu Cynaliadwy yw Cydraddoldeb Rhwng y Rhywiau. Mae'r nod hwn yn bwysig am amryw o resymau:

- Mae un o bob pum merch yn fyd-eang yn cael ei magu mewn tlodi eithafol.
- Mae mwy o fenywod nag o ddynion yn byw ar lai nag $1.90 y dydd.
- Dim ond dau draean o'r gwledydd mewn ardaloedd datblygol sy'n cynnig mynediad cyfartal at addysg gynradd i ferched a bechgyn.
- Mae cyfran yr aelodau seneddol sy'n fenywod yn 23% yn fyd-eang.
- Mae menywod yn gwneud teirgwaith y gwaith gofal domestig di-dâl o gymharu â dynion.
- Mewn 18 o wledydd, gall dynion atal eu gwragedd rhag gweithio, a hynny'n gyfreithiol.
- Dim ond 30% o'r gweithwyr proffesiynol yn y gwyddorau, yn fyd-eang, sy'n fenywod.[6]

Mae gan fenywod a dynion, fel ei gilydd, y syniadau ar gyfer datrys y problemau hyn, a gall y naill ryw a'r llall ysgwyddo'r arweinyddiaeth i wneud hynny. Mae i anghydraddoldeb rhwng y rhywiau oblygiadau enfawr ar gyfer swyddi, cynhyrchiant, twf yr GDP ac anghydraddoldeb cyffredinol.

Cydraddoldeb rhwng y rhywiau yn y Deyrnas Unedig[7]

Roedd ymchwil a wnaed gan Girlguiding yn amlygu pryderon merched a menywod ifanc yn 2018. Mae merched a menywod ifanc yn teimlo nad ydynt yn cael yr un cyfle â bechgyn/dynion:

- Mae 67% o ferched a menywod ifanc 11-21 oed o'r farn nad oes gan fenywod yr un cyfleoedd â dynion, o gymharu â 53% yn 2011.

[5] www.globalgoals.org/5-gender-equality
[6] www.globalgoals.org/5-gender-equality
[7] Girlguiding (2018) Girls' Attitudes Survey 2018, www.girlguiding.org.uk/globalassets/docs-and-resources/research-and-campaigns/girls-attitudes-survey-2018.pdf

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

- Mae 73% o ferched a menywod ifanc 11-21 oed o'r farn bod yn rhaid i fenywod weithio'n galetach na dynion i lwyddo, o gymharu â 57% yn 2011.

O gymharu â 2010, a hynny er gwaethaf dymuniad cynyddol ymysg merched i gael eu haddysgu am wleidyddiaeth a dinasyddiaeth, mae llawer o ferched yn cael eu troi oddi ar wleidyddiaeth oherwydd y modd y caiff menywod eu cynrychioli yn y cyfryngau. Hefyd, mae tri chwarter y menywod rhwng 11 a 21 oed yn credu bod yna lai o arweinwyr busnes sy'n fenywod oherwydd bod menywod yn cael eu trin mewn modd llai teg na dynion.

Gofal di-dâl

I raddau helaeth, un rheswm pam nad yw menywod wedi cymryd cymaint o ran â dynion yn y farchnad lafur yw oherwydd eu rôl draddodiadol fel gofalwyr sylfaenol. Mae hyn wedi arwain at nifer o fenywod yn cael eu cyflogi mewn swyddi sy'n adlewyrchu eu nodweddion gofalgar a meithringar tybiedig. Dyma'r sectorau y mae cymdeithas fel arfer yn eu tanbrisio. Mae mwyafrif y swyddi sydd â chyfran uwch na'r cyfartaledd o weithwyr ar gyflog isel a chontractau dros dro yn y sector gwasanaethau. Mae menywod yn llawer mwy tebygol o gael eu cyflogi ar gontractau anffurfiol, sy'n creu problemau penodol iddynt mewn perthynas â'r hawliau mamolaeth gwannach a'r oriau amrywiol.

Dolenni Gwe defnyddiol

Chwarae Teg

Sefydliad a ariennir gan y llywodraeth, ac sy'n anelu at hyrwyddo cydraddoldeb menywod yng Nghymru.

www.cteg.org.uk/

Girlguiding

Y sefydliad y tu ôl i'r Geidiaid a'r Brownis. Ei nod yw helpu merched a menywod ifanc i wireddu eu potensial.

www.girlguiding.org.uk/

Gwaith boddhaol

Mae gwaith boddhaol yn gysyniad a ddyfeisiwyd ac a hyrwyddir gan y Sefydliad Llafur Rhyngwladol, un o asiantaethau arbenigol y Cenhedloedd Unedig, sef i helpu gwledydd i ddeddfu er mwyn gwella cyfraith cyflogaeth.

www.ilo.org/global/topics/decent-work/lang--en/index.htm

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

Teitl yr adnodd

Amlinelliad manwl o'r adnodd

Trosolwg o'r sesiwn	Amcanion dysgu	Deilliannau dysgu	Cwestiynau allweddol	Gweithgareddau	Adnoddau
Sesiwn 1: Menywod a gwaith boddhaol: beth yw gwaith boddhaol?	• Myfyrio ar y cysyniad o waith boddhaol. • Deall bod rhywedd yn effeithio ar allu menywod i gael gwaith boddhaol. • Meddwl yn feirniadol am y rhesymau pam nad oes gan ddynion a menywod fynediad cyfartal at waith boddhaol.	• Cyflwynir y dysgwyr i'r cysyniad o waith boddhaol, a rhoddir cyfle iddynt fyfyrio arno, a hynny yng nghyd-destun eu bywydau eu hunain ac yn fyd-eang. • Bydd y myfyrwyr yn deall bod rhywedd yn effeithio ar allu menywod i gael gwaith boddhaol. • Bydd y dysgwyr yn defnyddio sgiliau meddwl yn feirniadol i ddeall sut y mae rhywedd yn effeithio ar allu menywod i gael gwaith boddhaol.	• Beth yw gwaith boddhaol? • Sut y mae rhywedd yn effeithio ar fynediad at waith boddhaol?	• Gweithgaredd 1.1: Dychmygu gwaith boddhaol • Gweithgaredd 1.2: Beth sy'n sicrhau bod gwaith yn foddhaol ar gyfer dynion a menywod? • Gweithgaredd 1.3: Gêm chwarae rôl Gwaith Boddhaol • Gweithgaredd 1.4: Beth y mae gwaith boddhaol yn ei olygu i bobl wahanol?	• Sioe sleidiau Gwaith Boddhaol ar gyfer Menywod (sleidiau 2-6) • Taflenni adnoddau: 1. Gêm Gwaith Boddhaol: cardiau chwarae rôl 2. Ffactorau gwaith boddhaol 3. Ffactorau gwaith boddhaol, yn ôl rhywedd
Sesiwn 2: Mynediad anghyfartal i fenywod at waith boddhaol: achosion, effeithiau ac atebion	• Defnyddio tystiolaeth i drafod y datganiad: 'Mae rhywedd yn effeithio ar fynediad pobl at waith boddhaol'. • Gwerthuso ac asesu ystadegau a ffynonellau crai eraill. • Dadansoddi achosion ac effeithiau mynediad anghyfartal i fenywod at waith boddhaol, yng Nghymru a ledled y byd, ac ystyried atebion posibl.	• Bydd y dysgwyr yn nodi'r anghydraddoldebau, yn lleol ac yn fyd-eang, rhwng menywod a dynion sy'n ceisio cael gwaith boddhaol. • Bydd y dysgwyr yn dadansoddi'r mater o fenywod a gwaith boddhaol yng Nghymru a ledled y byd, gan ystyried achosion, effeithiau ac atebion. • Bydd y dysgwyr yn cydweithredu er mwyn dod i benderfyniad ynghylch pa ateb(ion) a fyddai'n gweithio orau ar gyfer Cymru ac ar gyfer	• Pa effaith y mae anghydraddoldeb rhwng y rhywiau yn ei chael ar fynediad menywod at waith boddhaol? • Beth sy'n achosi'r anghydraddoldeb hwn? • Sut y gellir mynd i'r afael â'r anghydraddoldeb hwn? • Pam y mae'n bwysig rhoi'r atebion ar waith?	• Gweithgaredd 2.1: Perthnasedd rhywedd i waith • Gweithgaredd 2.2: Datgelu gwir achosion y broblem • Gweithgaredd 2.3: Gwaith Boddhaol ar gyfer Menywod yng Nghymru • Gweithgaredd 2.4: Dylunio coeden problemau • Gweithgaredd 5: Diemwnt 9	• Sioe sleidiau Gwaith Boddhaol ar gyfer Menywod (sleidiau 7-9) • Taflenni adnoddau 1. Menywod a gwaith boddhaol – ffynonellau 2. Menywod a gwaith boddhaol – Ffeithiau, ystadegau a barnau 3. Gwaith Boddhaol ar gyfer Menywod yng Nghymru 4. Atebion posibl: Gweithgaredd Diemwnt 9 • Taflenni gweithgareddau 1. Cadwyn pam-pam-pam 2. Coeden problemau 3. Diemwnt 9

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

		y byd.			
Sesiwn 3: Menywod a gwaith boddhaol: sicrhau newid	• Nodi'r ffordd orau o sicrhau gwaith boddhaol ar gyfer menywod. • Dadansoddi'r modd y gall newid ddigwydd, a phwy a all drefnu hyn. • Ysgrifennu safbwynt personol. • Creu ymgyrch arloesol i feithrin ymwybyddiaeth.	• Bydd y dysgwyr yn edrych ar amrywiaeth o astudiaethau achos lleol a byd-eang, ac yn ystyried yr hyn sy'n ofynnol iddo ddigwydd er mwyn sicrhau newid, pwy sydd mewn sefyllfa i sicrhau bod hyn yn digwydd, a sut y gall hyn ddigwydd. • Bydd y dysgwyr yn ystyried ac yn ymwybodol o'u safbwynt personol eu hunain. • Bydd y dysgwyr yn defnyddio eu creadigrwydd i gynhyrchu a gwerthuso ymgyrch arloesol i feithrin ymwybyddiaeth o'r materion; byddant yn penderfynu ar dri chwestiwn.	• Beth y mae'n ofynnol ei newid er mwyn sicrhau bod gwaith yn foddhaol ar gyfer menywod? • Pwy sy'n gyfrifol am sicrhau bod menywod yn cael eu grymuso fwyfwy yn economaidd? • Beth y gallwn ei wneud i sicrhau newid? • Sut y gallwn feithrin ymwybyddiaeth o'r angen i greu newid?	• Gweithgaredd 3.1: Continwwm barn • Gweithgaredd 3.2: Dadansoddiad o astudiaethau achos • Gweithgaredd 3.3: Safbwynt personol • Gweithgaredd 4.3: Gweithredu – meithrin ymwybyddiaeth	• Sioe sleidiau Gwaith Boddhaol ar gyfer Menywod (sleidiau 10-24) • Taflenni adnoddau: 1. Astudiaeth Achos: Gofal plant yng Nghymru 2. Astudiaeth Achos: Ansawdd swyddi yng Nghymru 3. Astudiaeth Achos: Cyflogadwyedd a sgiliau yng Nghymru 4. Astudiaeth Achos: Gwaith ffatri yn Fiet-nam 5. Astudiaeth Achos: Gofal yn Uganda 6. Astudiaeth Achos: Sefydliadau menywod yn Kenya • Taflenni gweithgareddau: 1. Datblygu eich ymgyrch 2. Dadansoddiad SWOT

Hawlfraint © Oxfam GB. Dim ond i ddibenion addysgol y gallwch atgynhyrchu'r ddogfen hon.

Dinasyddiaeth Fyd-eang

Mae hwn yn adnodd dinasyddiaeth fyd-eang a ysgrifennwyd ar gyfer athrawon sy'n addysgu Bagloriaeth Cymru i ddysgwyr 14-19 oed. Mae Addysg ar gyfer Dinasyddiaeth Fyd-eang yn fethodoleg sy'n anelu at helpu pobl ifanc i ddatblygu i fod yn ddinasyddion byd-eang gweithgar. Mae Oxfam yn awgrymu dull dysgu – meddwl – gweithredu, er mwyn rhoi cyfle i'r bobl ifanc ddysgu am faterion, meddwl yn feirniadol am ddulliau i'w datrys, a gweithredu fel dinasyddion byd-eang cyfrifol. Gallai'r camau gweithredu gynnwys darganfod rhagor o wybodaeth neu feddwl yn ddyfnach am fater. Gallent hefyd olygu sicrhau bod eraill yn fwy ymwybodol o fater, neu gymryd rhan mewn gweithgareddau codi arian neu ymgyrchu penodol. Am ragor o wybodaeth, gweler: www.oxfam.org.uk/education/global-citizenship

Dyma elfennau allweddol dinasyddiaeth fyd-eang gyfrifol:

Gwybodaeth a dealltwriaeth	Sgiliau	Gwerthoedd ac agweddau
• Cyfiawnder cymdeithasol a thegwch • Hunaniaeth ac amrywiaeth • Globaleiddio a rhyngddibyniaeth • Datblygu cynaliadwy • Heddwch a gwrthdaro • Hawliau dynol • Pŵer a llywodraethu	• Meddwl mewn modd creadigol a beirniadol • Empathi • Hunanymwybyddiaeth a myfyrdod • Cyfathrebu • Cydweithredu a datrys gwrthdaro • Y gallu i reoli cymhlethdod ac ansicrwydd • Camau gweithredu gwybodus a myfyriol	• Ymdeimlad o hunaniaeth a hunan-barch • Ymrwymiad i gyfiawnder cymdeithasol a thegwch • Parch at bobl a hawliau dynol • Gwerthfawrogi amrywiaeth • Pryder am yr amgylchedd ac ymrwymiad i ddatblygu cynaliadwy • Ymrwymiad i gyfranogiad a chynhwysiant • Y gred y gall pobl sicrhau newid

Cydnabyddiaethau

Ni fyddai'r cyhoeddiad hwn wedi bod yn bosibl heb gymorth a chyfraniadau gan nifer o staff Oxfam.

I gael rhagor o wybodaeth am Addysg Oxfam, gan gynnwys amrywiaeth eang o adnoddau sy'n gysylltiedig â'r cwricwlwm, gweler: www.oxfam.org.uk/education

Telerau defnyddio

Hawlfraint © Oxfam GB

Gallwch ddefnyddio lluniau a gwybodaeth berthnasol yn yr adnodd hwn i ddibenion addysgol yn eich sefydliad addysgol. Bob tro y byddwch yn ei defnyddio, rhaid i chi gydnabod y ffotograffydd sy'n cael ei enwi ar gyfer y ddelwedd honno, ynghyd ag Oxfam. Ni chewch ddefnyddio'r delweddau na'r wybodaeth gysylltiedig i ddibenion masnachol, nac y tu allan i'ch sefydliad addysgol. Mae'r holl wybodaeth sy'n gysylltiedig â'r delweddau hyn yn berthnasol i'r dyddiad a'r adeg y cafodd y gwaith prosiect hwnnw ei gyflawni.